## Briwsion y Gair o Efengyl Mathew yn y Grawys

Dylai'r adnodau canlynol o'r Ysgrythur gael lle pwysig – blaenoriaeth yn wir – yn ein meddyliau yn ystod tymor y Grawys. Ceisiwn ddysgu'r cyfan ar gof, neu o leiaf eu hadrodd yn feunyddiol. Ie, o leiaf unwaith bob dydd hyd ddydd Gwener y Groglith. Darllenwch yr adnodau hyn:

i) Mathew 5:9; 'Gwyn eu byd y tangnefeddwyr: canys hwy a elwir yn blant i Dduw.'

ii) Mathew 7:21; 'Nid pob un sydd yn dywedyd wrthyf, Arglwydd, Arglwydd, a ddaw i mewn i deyrnas nefoedd: ond yr hwn sydd yn gwneuthur ewyllys fy Nhad yr hwn sydd yn y nefoedd.'

iii) Mathew 10:32; 'Pwy bynnag gan hynny a'm cyffeso i yng ngŵydd dynion, minnau a'i cyffesaf yntau yng ngŵydd fy Nhad yr hwn sydd yn y nefoedd.'

iv) Mathew 10:37; 'Yr hwn sydd yn caru tad neu fam yn fwy na myfi, nid yw deilwng ohonof fi: a'r neb sydd yn caru mab neu ferch yn fwy na myfi, nid yw deilwng ohonof fi.'